CLAWDD A CHAE

Clytwaith y meysydd
Rhiwlen, Powys

Mae thema terfynau a'r tir o'u mewn yn rhedeg trwy'r rhan fwyaf o gyfraniadau ein hail werifyn felly mae'n naturiol mai **Clawdd a Chae** ydy'r pennawd. Gan fod llawer o ôlrifynnau'r cylchgrawn wedi mynd yn brin iawn erbyn hyn, braf yw medru manteisio ar y drefn newydd a dethol erthyglau addas i'w hail-gyhoeddi mor ddidrafferth.

Mae'r darnau hyn yr un mor berthnasol a gwerthfawr heddiw â phan y cawsant eu cyhoeddi gyntaf.

Erbyn hyn symudwyd cynnwys y rhifyn blaenorol sef Heddiw, Ddoe ac Yfory (rhifyn 23) i'r ffolderi storio priodol - Y Frân Goesgoch i ffolder Adar, Newydd Wedd i ffolder Celf, ac felly ymlaen. Cewch hyd iddynt trwy fynd i mewn i'r adran briodol ac agor pa ffolderi bynnag sydd eu heisiau arnoch. Cewch syniadau pellach ar sut i gael y defnydd gorau o erthyglau'r we ar y dudalen arbennig i Athrawon.

Yn ddiweddar clywodd aelod o'r Gymdeithas athro yn gresynu fod Gwaith Maes wedi dod i ben – "Roedd o mor dda!" Yn ddiymdroi, cymerwyd y cyfle i gywiro'r camargraff hwn, ond mae perygl nad yw pob ysgol ac athro'n sylweddoli eto fod adnodd mor ddefnyddiol yn dal ar gael. Felly, da chi, gwnewch eich gorau i ledaenu'r newyddion da fod Gwaith Maes yn fyw ac iach yn ei gartref newydd ar y we!

Rhifyn Nesaf
Tachwedd 2002

Meira Shakespear

Cyfrifoldeb athrawon yw asesu peryglon unrhyw weithgaredd neu ymweliad.